


**Buddsoddi yn
ein Cymunedau**

**Investing in our
Communities**



**Diweddariad
Cymunedol**

Annwyl Breswlydd,

Mai 2021

Llwyn Eirin – cartrefi newydd ar dir gerllaw Tan y Sgubor, Dinbych

Rydym yn falch iawn o ddweud ein bod bellach wedi dechrau'r gwaith o adeiladu 22 o gartrefi rhent cymdeithasol newydd i'r Cyngor ar dir gerllaw Tan y Sgubor, Dinbych. Mae ein prif contractwr, Brenig Construction, yn gwneud cynnydd ar y safle a hoffem rannu gyda chi beth sydd wedi bod yn digwydd yno a beth yw'r cynlluniau ar gyfer y misoedd nesaf.

Ers dechrau'r prosiect, rydym wedi:

- Siapio ac amlinellu'r tir, gan ddechrau siapio'r sylfeini.
- Gosod pibellau o dan y ddaear ar gyfer pypiau gwres o'r ddaear. Bydd y pibellau hyn yn darparu gwres i'r cartrefi newydd, ceir mwy o wybodaeth yn ein diweddariad nesaf.
- Enwi'r datblygiad yn Llwyn Eirin i ddathlu Eirin Dinbych Dyffryn Clwyd.
- Tyllu a gosod sylfeini concrid ar gyfer 10 o'r 22 o gartrefi.
- Dechrau codi fframiau pren Passivhaus ar gyfer 6 cartref. Mae Passivhaus yn gartref ynni isel sy'n cael ei adeiladu gan ddefnyddio technegau adeiladu uwch sy'n cael effaith fach iawn ar yr amgylchedd. Am fwy o wybodaeth am Passivhaus, ewch i <https://www.beattiepassive.com/what-is-passivhaus.php>.
- Adeiladu wal gynnal gan ddefnyddio basgedi ar ran uchaf y safle.

Gwaith dros yr haf:

Dros y misoedd nesaf gallwch ddisgwyl gweld:

- Gweddill y sylfeini'n cael eu gosod.
- Fframiau pren yn cael eu cwblhau, a rhai newydd yn cyrraedd.
- Llechi yn dechrau cael eu gosod ar doeau'r cartrefi cyntaf.
- Gwaith weirio a phlastro y tu mewn i'r cartrefi.
- Ffenestri gwydr triphlyg, perfformiad uchel, newydd yn dechrau cael eu gosod.

Am wybodaeth gyfredol am y prosiect, edrychwch ar wefan www.taisirddinbych.co.uk/LlwynEirin neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Rheolwr Gweithrediadau Brenig Construction, Steven Walker ar 01492 514934.

Diolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cymorth parhaus i'r prosiect hwn.